

Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd Cynllun 'Cymorth Cartref'

DEALL IAITH

Gwybod beth ydi ystyr geiriau a deall
yr hyn rydych chi'n ei ddweud



Wrth ddysgu beth ydi ystyr geiriau a'r hyn rydych chi'n ei ddweud, bydd plant yn dibynnu ar gliwiau - fel gweithredoedd byddwch chi'n eu gwneud neu'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.

Efallai bod hyn yn golygu eu bod yn ymddangos i ddeall yn well nag y maen nhw mewn gwirionedd.

Os na fydd plant yn gallu deall geiriau a brawddegau gallan nhw deimlo'n ansicr ac wedi drysu. Efallai y byddan nhw hefyd yn ymddangos i'ch anwybyddu neu'n gwneud y pethau anghywir.

Darllenwch y daflen hon i gael syniadau am sut y gallwch helpu.

Helpu eich plentyn i gael gwell ddealltwriaeth

Wrth chwarae gemau i geisio datblygu dealltwriaeth eich plentyn, gwneud yn siŵr bod gennych chi ei sylw - felly diffoddwch y teledu, cewch wared ar gymaint o bethau sy'n tynnu sylw ag y gallwch, a gwnewch y profiad yn gymaint o hwyl â phosibl!

- Mae plant angen clywed geiriau drosodd a throsodd, mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ar wahanol amseroedd.
- Mae angen iddyn nhw glywed y gair a gweld y gwrthrych neu weithgaredd mae'n ymwneud ag ef er mwyn gallu cysylltu'r ddau â'i gilydd.

Ble i gychwyn

Cychwynnwch trwy adeiladu dealltwriaeth eich plentyn o eiriau unigol (enwau pethau a geiriau gwneud).

Yn yr archfarchnad - modelwch eiriau trwy eu henwi (e.e. "mmm, tomato"). Gwnewch hyn lawer o weithiau, yn ddiweddarach gofynnwch i'ch plentyn, "o na... ble mae'r tomato?"



Yn yr ardd - dangoswch wahanol weithredoedd i'ch plentyn e.e. "edrycha mae mam yn neidio, ydi Tom yn gallu neidio? Wow dyna neidio da"

Helpu â brawddegau a phethau byddwch chi'n gofyn iddyn nhw eu gwneud



Adeiladwch allu eich plentyn i fyny'n araf, o ddeall geiriau unigol (e.e. dod o hyd i 'gar', neu 'gwpan' pan fyddwch chi'n gofyn yn ystod gêm) i dynnu sylw at bethau ar y stryd (e.e. pan fyddwch chi'n gofyn iddo/iddi a ydi ef/hi'n gallu gweld 'cath mewn coeden' neu 'gi mewn car').

Llyfrau a storïau - darllenwch drwy lyfrau drosodd a throsodd, pwyntio at y lluniau a siarad amdany'n nhw fel bod eich plentyn yn dod yn gyfarwydd iawn â nhw. Yn raddol cychwynnwch ofyn iddo/iddi ddod o hyd i bethau yn y lluniau e.e. "ble mae'r ceffyl sy'n bwyta fferins?".

Gemau chwarae cuddio - Cuddiwch ei hoff degan o amgylch y tŷ, gan ddweud wrtho/wrthi ble bob tro e.e. mae 'tedi drwg' yn cuddio - yn ddiweddarach gofynnwch iddo/iddi ei guddio (e.e. beth am ei roi *dan* y gwely, *ar* y teledu, *yn* y bocs" ac ati.

Cofiwch - Geisio peidio â gofyn gormod o gwestiynau i'ch plentyn a chanmolwch ef/hi os bydd yn ymateb hyd yn oed os nad ydi'n gywir.

os ydych yn poeni am leferydd eich plenfyn neu am gael mwy o wybodaeth, ffoniwch eich Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith lleol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-Bont ar Ogwr
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Wrecsam a Sir y Fflint Conwy a Sir Ddinbych Gogledd-orllewin Cymru	O1978 727071 O1745 443178 O1286 662760 Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam, yn ogystal â rhannau o'r canolbarth, Swydd Gaer a Sir Amwythig
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Preswylwyr Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	Cwm Cynon, Merthyr Tudful, Cymoedd y Rhondda ac ardal Taf Elái
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.
Bwrdd Addysgu Iechyd Powys	Aberhonddu, Y Drenewydd, Sir Fynwy a Threfyclo, Sir Frycheiniog a gweddill Maesyfed

Afasic Cymru yw'r unig elusen yng Nghymru sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc ag Anghenion Lleferydd, iaith a Chyfathrebu (SLCN), a rhoddir pwyslais arbennig ar bobl ifanc â Nam Penodol ar iaith (SLI) www.afasiccymru.org.uk.

Mae Afasic Cymru'n cydnabod Amy Hewer, Therapydd iaith a Lleferydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Dechrau'n Deg Wrecsam am weithio mewn partneriaeth i gynhyrchu'r wybodaeth hon.

Ariennir cynhyrchiad y daflen hon gan
Sefydliad Waterloo a Llywodraeth Cymru

 thewaterloofoundation



Llywodraeth Cymru
Welsh Government